Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru
Datganiad i'r Wasg
I'w ryddhau ar unwaith
02920 491818 | 07815 071164
www.neu.org.uk
www.Facebook.com/nationaleducationunion
www.Twitter.com/@NEUnion

9fed Tachwedd 2019

Rhaid i les staff fod yn flaenoriaeth

Mae undeb addysg fwyaf Cymru yn dweud fod paratoi ar gyfer y cwricwlwm Newydd, y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (ALNET), a materion cyllido sydd wedi arwain at leihad yn y nifer o gynorthwywyr addysgu ac athrawon mewn llawer o ysgolion, wedi gwaethygu materion baich gwaith sydd wedi arwain at gynnydd amlwg mewn materion straen ac iechyd meddwl mewn athrawon. Mae'r Undeb Addysg Cenedlaethol yn galw am ddarpariaeth hyfforddiant i gynrychiolwyr gweithle a chynrychiolwyr Iechyd a Diogelwch i'w harfogi â'r sgiliau a'r wybodaeth i wella lles staff mewn ysgolion. Maent hefyd yn galw i gael Cymhorthwyr Cyntaf Iechyd Meddwl (MHFA) hyfforddedig a thrwyddedig ym mhob Ysgol yn ogystal â pholisi iechyd meddwl ar gyfer staff.

Dywedodd **David Evans**, Ysgrifennydd Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru:

"Mae ein haelodau yn glir bod angen i Lywodraeth Cymru gymryd iechyd meddwl y rhai a gyflogir mewn addysg o ddifrif. Gwnaethom groesawu'r datganiad a wnaed gan y Gweinidog Addysg yn ystod wythnos iechyd meddwl yn ôl ym mis Mai lle soniodd ni allwn ddisgwyl i'n hathrawon gynnig cymorth effeithiol i'n dysgwyr os nad ydyn nhw eu hunain yn cael cymorth.

"Byddwn yn edrych i weithio gyda'n cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru a'r awdurdodau lleol i sicrhau bod rhaid i hyn fod yn flaenoriaeth."

GORFFEN

Roedd testun y cynnig i gynhadledd ar y mater hwn fel a ganlyn

Cynnig 8. Lles Staff

Mae Cynhadledd Cymru yn nodi:

1. Yn ôl Cyngres Undebau Llafur Cymru, mae 97% o weithwyr yn dweud bod gan gyflogwyr gyfrifoldeb i gefnogi iechyd meddwl eu staff ond nid oes gan hanner y cyflogwyr bolisi iechyd meddwl.

2. Bod cynrychiolwyr undebau mewn ysgolion ac ysgrifenyddion ardal wedi bod yn gweithio'n ddiflino i frwydro yn erbyn achosion straen a baich gwaith cynyddol.

Mae Cynhadledd Cymru yn croesawu'r datganiad canlynol a wnaed gan Kirsty Williams yn ystod wythnos iechyd meddwl ym mis Mai, “Allwn ni ddim disgwyl i'n hathrawon gynnig cymorth effeithiol i'n dysgwyr os nad ydyn nhw eu hunain yn cael cymorth. Dyna pam ein bod ni'n cymryd camau i fynd i'r afael â baich gwaith athrawon drwy symud i gyfeiriad ystafelloedd dosbarth digidol, symleiddio trefniadau marcio ac asesu, yn ogystal â chynnig gwell cyfarwyddyd a threfniadau cyflenwi mewn ysgolion. Rydyn ni hefyd wedi dechrau trafod gyda phrifysgolion er mwyn edrych ar ffyrdd o gefnogi cwricwlwm Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) drwy gynnwys materion yn ymwneud ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a lles meddyliol.”

Cred Cynhadledd Cymru fod paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd a Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (ALNET) wedi cynyddu baich gwaith athrawon ymhellach yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Ar ben hynny, mae materion cyllido sydd wedi arwain at leihad yn y nifer o gynorthwywyr addysgu ac athrawon mewn llawer o ysgolion, wedi gwaethygu materion baich gwaith sydd wedi arwain at gynnydd amlwg mewn materion straen ac iechyd meddwl mewn athrawon.

Mae Cynhadledd Cymru yn condemnio'r anwybyddiad ar gyfer lles staff mewn proffesiwn sy'n cael ei lywio gan brofion, craffu ac atebolrwydd.

Mae Cynhadledd Cymru felly yn cyfarwyddo'r Adran Weithredol trwy Bwyllgor Cymru i:

i. Wneud lles staff yn ymgyrch flaenoriaethol.

ii. Ddarparu hyfforddiant i gynrychiolwyr ysgol a chynrychiolwyr Iechyd a Diogelwch i'w harfogi â'r sgiliau a'r wybodaeth i wella lles staff mewn ysgolion.

iii. Ymgyrchu dros bolisi iechyd meddwl ar gyfer staff sy'n gweithio o fewn y polisi Iechyd a Diogelwch ym mhob Ysgol.

iv. Ymgyrchu i gael Cymhorthwyr Cyntaf Iechyd Meddwl (MHFA) hyfforddedig a thrwyddedig ym mhob ysgol.

v. Gyhoeddi enghreifftiau o arfer dda mewn ysgolion sy'n gweithio i hyrwyddo lles staff ac i sefydlu diwylliant didwylledd o amgylch iechyd meddwl.

Diwygiad

i.) Ychwanegu brawddeg newydd ar ddiwedd *v*:

"Annog achredu sefydliadau addysg sy'n cael eu nodi fel cyflogwyr da sy'n gwerthfawrogi eu staff e.e. Buddsoddwyr mewn Pobl"

<u>Cysylltiadau'r wasg:</u>

Mae'r Undeb Addysg Genedlaethol yn gyfuniad o Gymdeithas yr Athrawon a Darlithwyr (ATL) ac Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT), a ffurfiwyd ar 1 Medi 2017. Gweler y manylion cyswllt isod am gymorth:

Cyswllt: Stuart Williams, Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru, Tŷ Sinnott, 18 Llys Neifion, Ffordd Vanguard, Caerdydd CF24 5PJ. Ffôn: 029 20491818. Symudol: 07795 295 355.

e-bost: stuart.williams@neu.org.uk

<u>Nodyn i olygyddion:</u>

- Mae'r Undeb Addysg Cenedlaethol yn sefyll ar gyfer dyfodol addysg. Mae'n dod â lleisiau athrawon, darlithwyr, staff cefnogi ac arweinwyr sy'n gweithio mewn ysgolion a cholegau cynaledig ac annibynnol ynghyd i ffurfio'r undeb addysg fwyaf yng Nghymru.

- Mae'r Undeb Addysg Cenedlaethol yn gysylltiedig â Chyngres Undebau Llafur (TUC), Pwyllgor Undeb Llafur Ewrop ar gyfer Addysg (ETUCE) ac Addysg Ryngwladol (EI). Nid yw'n gysylltiedig ag unrhyw blaid wleidyddol ac mae'n ceisio gweithio'n adeiladol gyda'r holl brif bleidiau gwleidyddol.